OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 10

# Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

**Enwi, cymhwyso, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024, mae'n gymwys o ran Cymru, a daw i rym ar 7 Chwefror 2024.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ardal lai ffafriol" ("*less favoured area*") yw unrhyw ardal o dir dan anfantais neu dir dan anfantais ddifrifol;

mae i "hectar cymwys" yr un ystyr ag a roddir i "eligible hectare" yn Erthygl 32(2) o Reoliad 1307/2013;

ystyr "mapiau dynodedig" ("*designated maps*") yw'r ddwy gyfrol o fapiau dyddiedig 20 Mai 1991, sydd wedi eu rhifo 1 a 2; y naill gyfrol a'r llall wedi eu marcio â "Volume of maps of less favoured farming areas in Wales" ac â rhif y gyfrol, ac sydd wedi eu llofnodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'u hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

ystyr "Rheoliad 1307/2013" ("*Regulation 1307/2013*") yw Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**1**);

ystyr "tir dan anfantais" ("*disadvantaged land*") (ac eithrio yn yr ymadrodd "tir dan anfantais ddifrifol") yw unrhyw ardal o dir sydd wedi ei lliwio'n las ar y mapiau dynodedig;

ystyr "tir dan anfantais ddifrifol" ("*severely disadvantaged land*") yw unrhyw ardal o dir sydd wedi ei lliwio'n binc ar y mapiau dynodedig.

(**1**) EUR 2013/1307, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1556; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Ymgorfforwyd y Rheoliad hwn mewn cyfraith ddomestig gan adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2)